

Cael llais
Cael dewis

Having a voice
Having a choice

Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl ifanc

Children and Young People's National Participation Standards

"Mae gan blant hawl i roi eu barn ynghylch beth ddylai ddigwydd, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i gael sylw i'w barn"

Erthygl 12: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

"Children have the right to say what they think should happen, when adults are making decisions that affect them, and to have their opinions taken into account"

Article 12: The United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC)

Mae hyn yn golygu:

Byddwn ni:

This means:

We will:

- Mae gennych chi'r hawl i wybodaeth sy'n hawdd ei deall ac sy'n gadael i chi wneud penderfyniad gwybodus.

- Yn darparu gwybodaeth o safon dda, yn glir ac yn hawdd mynd ati.
- Yn rhoi gwybod i chi pwy sy'n mynd i wrando a gadael i chi wybod pa wahaniaeth gallai'ch cyfranogiad chi ei wneud.

1

Gwybodaeth
Information

- You have the right to information that is easy to understand and allows you to make an informed decision.

- Provide information that is good quality, clear and accessible.
- Inform you about who's going to listen and let you know what difference your involvement could make.

- Mae gennych chi'r hawl i ddewis cymryd rhan a gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi.

- Yn rhoi digon o gefnogaeth ac amser i chi ddewis a ydych chi eisiau cymryd rhan.

2

Chi biau'r dewis
It's your choice

- You have the right to choose to be involved and work on things that are important to you.

- Give you enough support and time to choose if you want to get involved.

- Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae ganddyn nhw'r hawl i gael eu trin yn deg.

- Yn herio gwahaniaethu.
- Yn cynnig amrediad o gyfleoedd a chefnogaeth i fodloni anghenion plant a phobl ifanc.

3

Dim gwahaniaethu
No discrimination

- Children and young people are all different and have the right to be treated fairly.

- Challenge discrimination.
- Provide a range of opportunities and support to meet the needs of children and young people.

- Mae gennych chi'r hawl i leisio barn. Mae'ch safbwyntiau chi'n bwysig a chânt eu parchu.

- Yn gwranddo ar eich barn, eich profiadau a'ch syniadau ac yn eich cymryd chi o ddifri.
- Yn gweithio gyda chi ar bethau rydych chi'n dweud eu bod nhw'n bwysig.
- Yn gwerthfawrogi beth sydd gennych chi i'w gynnig.

4

Parch
Respect

- You have the right to have a say. Your opinions are important and will be respected.

- Listen to your views, experiences and ideas and take you seriously.
- Work with you on things you say are important.
- Value what you have to offer.

- Mae gennych chi'r hawl i ddysgu a bod y gorau y gallwch chi fod.
- Bydd gennych chi gyfleoedd i weithio gyda phobl eraill a gwneud gwahaniaeth.
- Rydyn ni eisiau i chi gymryd rhan mewn profiadau positif.

- Yn gweithio gyda chi mewn ffordd ddiogel, hwyl a phleserus.
- Yn manteisio i'r eithaf ar beth rydych chi'n ei wybod ac yn gwneud pethau sy'n meithrin eich hyder a'ch sgiliau chi.

5

Bod ar eich ennill
You get something out of it

- You have the right to learn and be the best you can be.
- You will have opportunities to work with others and make a difference.
- We want you to be involved in positive experiences.

- Work with you in safe, fun and enjoyable ways.
- Make the most of what you know and do things that build your confidence and skills.

- Mae gennych chi'r hawl i wybod pa wahaniaethau rydych chi wedi eu gwneud a sut mae rhywun wedi gwranddo ar eich syniadau chi.

- Bob amser yn sicrhau eich bod chi'n cael adborth o fewn amser sydd wedi'i gytuno.
- Yn dweud wrthych chi sut mae'ch syniadau wedi cael eu defnyddio a pham.
- Yn dweud wrthych chi beth sy'n digwydd nesaf.

6

Adborth
Feedback

- You have the right to know what differences you have made and how your ideas have been listened to.

- Always ensure you have feedback in an agreed time.
- Tell you how your ideas have been used and why.
- Tell you what happens next.

- Dylai'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant yng nghanol popeth maen nhw'n ei wneud.

- Yn gweithio gyda chi ac yn dysgu sut i wneud pethau'n well.
- Yn gwneud yn siŵr bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydyn ni'n gwneud cynlluniau a phenderfyniadau.

7

Gweithio'n well drosoch chi
Working better for you

- Those who make decisions that affect children and young people should put children's rights at the centre of everything they do.

- Work with you and learn how we can do things better.
- Ensure your views make a difference to the way we make plans and decisions.

Y Safonau hyn sy'n cynnal tair colofn CCUHP - Diogelu, Darpariaeth a Chyfranogi
The Standards underpin the three pillars of the UNCRC – Protection, Provision & Participation

